## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004 (O.S. 2004/905) (Cy.89) ("y Prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod diffiniad, sef "aelod o'r Bwrdd" ac yn diwygio'r diffiniad o "aelod" yn rheoliad 1(2) o'r Prif Reoliadau.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi fersiwn ddiwygiedig o reoliad 3 o'r Prif Reoliadau yn lle'r hen un. Mae'r prif newid yn newid tymor gwasanaethu aelodau o Gyngor Iechyd Cymuned i gyfnod rhwng un a phum mlynedd, fel a bennir adeg eu penodi.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 3A newydd yn y Prif Reoliadau. Mae hwn yn darparu mai'r cyfnod sydd heb ddirwyn i ben o dymor cyfredol penodiad aelodau o Gyngor Iechyd Cymuned a benodwyd ar 31 Mawrth 2005 neu cyn hynny yw eu tymor gwasanaethu.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 8(1), yn disodli rheoliad 8(2) ac yn ychwanegu paragraff (3) newydd at reoliad 8 o'r Prif Reoliadau. Effaith y newidiadau yw darparu mai deg yw uchafswm nifer y blynyddoedd y caiff person wasanaethu fel aelod o Gyngor Iechyd Cymuned. Caiff pob gwasanaeth fel aelod o Gyngor neu Gynghorau Iechyd Cymuned, heb ystyried unrhyw ad-drefniadau, ei agregu wrth gyfrifo'r cyfnod hwyaf o ddeng mlynedd.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 8A newydd yn y Prif Reoliadau. Mae rheoliad 8A newydd yn darparu bod aelodau o Gyngor Iechyd Cymuned a oedd wedi'u penodi cyn 1 Ebrill 2005 yn cael treulio gweddill eu tymor gwasanaethu cyfredol hyd yn oed os byddai hynny'n golygu y byddent yn treulio mwy na'r uchafswm rhagnodedig o ddeng mlynedd.

Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 12(3) o'r Prif Reoliadau i'w gwneud yn glir y byddai swyddogion i Gyngor Iechyd Cymuned yn ogystal ag aelodau yn cael eistedd ar gydbwyllgor.

Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 23 o'r Prif Reoliadau i wneud sefydlu gweithdrefn gwynion yn un o swyddogaethau Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

Mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod yn y Prif Reoliadau reoliad 23A newydd sy'n ymdrin â sefydlu gweithdrefn gwynion sydd i'w dilyn mewn perthynas â chwynion am Gynghorau, aelodau unigol a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 24 o'r Prif Reoliadau. Y prif newidiadau yw darparu mai dim ond aelodau a swyddogion Cyngor Iechyd Cymuned y caniateir eu penodi i Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, ac y bydd tymor penodiad aelodau o'r Bwrdd yn gyfnod hyd at dair blynedd.

Mae rheoliad 11 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 26 o'r Prif Reoliadau i'w gwneud yn glir mai aelodau o Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yw'r "aelodau" y cyfeirir atynt.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi a'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru.